# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
# Caerphilly County Borough Council

## Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) 2019 (Gorchymyn Diwygio Rhif 8) 2021

### Darpariaeth Arfaethedig a Diwygiadau i Orchmynion Traffig mewn amryw o leoliadau yn wardiau Nelson a Sant Iago ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (‘y Cyngor’), wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (‘Deddf 1984’) a Deddf Rheoli Traffig 2004 (‘Deddf 2004’) a’r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd â’r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019 drwy ddarparu llinellau melyn dwbl yn y mannau a ganlyn:

**Pentwyngwyn Road ac Edward Thomas Close, Rhydri**
- Ar ochr orllewinol Pentwyngwyn Road o ddechrau’r llinellau melyn dwbl presennol, tua 15m o’r gyffordd â Garth Lane, i gyfeiriad y gogledd am bellter o tua 10m.
- O ffin gyffredin rhifau 2/4 Pentwyngwyn Road i gyfeiriad y de-ddwyrain a’r dwyrain i’r gyffordd yn agos i rif 1 Edward Thomas Close, sef pellter o tua 36m.
- Ar ochr ddeheuol Edward Thomas Close o’r llinellau melyn dwbl presennol wrth y gyffordd â Heol-y-Garth i gyfeiriad y dwyrain i ffin ddwyreiniol rhif 7 Heol-y-Garth, sef pellter o tua 24m.

**Parc Busnes Caerffili, Caerffili**
- Ar ochr ddwyreiniol y ffordd i Barc Busnes Caerffili, y tu allan i Bryn House, o fynedfa Parc Busnes Caerffili i gyfeiriad y de i’r ffordd fynediad sy’n arwain i’r tu cefn i Barc Busnes Caerffili a Britannia Lodge, sef pellter o tua 91m.

**Pen-y-Cae, Dolydd Trefore, Caerffili**
- Ar ochr ogleddol Pen-y-Cae, o’r gyffordd â’r brif ffordd ddosbarthu i gyfeiriad y gorllewin y tu ôl i ffin gyffredin rhifau 16/18 Gwaun-Hyfryd, sef pellter o tua 55m.
- Ar ochr ddeheuol Pen-y-Cae, o’r gyffordd â’r brif ffordd ddosbarthu i gyfeiriad y gorllewin y tu ôl i fan 5m i’r gorllewin o’r llwybr troed i Ysgol Gynradd Sant Iago, sef pellter o tua 81m.

**Llancaiach View a Thawelfan, Nelson**
- Ar ochr ogledd-orllewinol Llancaiach View, o’r gyffordd â Thawelfan i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o tua 17m.
- Ar ochr ogledd-ddwyreiniol Tawelfan, o’r gyffordd â Chwrt Llancaiach i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 13m.
- Ar ochr dde-ddwyreiniol Llancaiach View, o’r gyffordd â Thawelfan i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o tua 17m.
- Ar ochr dde-orllewinol Tawelfan, o’r gyffordd â Llancaiach View i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o tua 10m.

**Brooklands a Heol Shingrig, Nelson**
- Ar ochr ddeheuol Brooklands, o’r gyffordd â Heol Shingrig i gyfeiriad y gorllewin am bellter o tua 10m.
- Ar ochr ogleddol Brooklands, o’r gyffordd â Heol Shingrig i gyfeiriad y gorllewin am bellter o tua 10m.
- Ar ochr orllewinol Heol Shingrig, o’r gyffordd â Brooklands i gyfeiriad y de i’r llinellau melyn dwbl presennol, sef pellter o tua 10m.

**Y Stryd Fawr, Nelson**
- Ar ochr ddeheuol y Stryd Fawr, o’r gyffordd â’r lôn i Rose Cottages i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 5m.
- Ar ochr ddeheuol y Stryd Fawr, o’r gyffordd â’r lôn i Rose Cottages i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 5m.

**Bryncelyn, Nelson**
- Ar ochr ogleddol Bryncelyn, y tu blaen i rif 57 Bryncelyn, o’r gyffordd â’r ffordd fynediad yn agos i rif 57 Bryncelyn i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 10m.
- Ar ochr ogleddol Bryncelyn, y tu blaen i rif 11 Bryncelyn, o’r gyffordd â’r ffordd fynediad yn agos i rif 11 Bryncelyn i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 10m.
- Ar ochr orllewinol y ffordd fynediad, wrth ochr rhifau 11/13/55/57 Bryncelyn, o’r gyffordd â Bryncelyn i gyfeiriad y gogledd am bellter o 53m.
- Ar ochr ddwyreiniol y ffordd fynediad, wrth ochr rhifau 11/13/55/57 Bryncelyn, o’r gyffordd â Bryncelyn i gyfeiriad y gogledd am bellter o 53m.

**Thomas Street, Nelson**
- Ar ochr ddwyreiniol mynedfa gefn Ysgol Iau Llancaeach, ym mhen dwyreiniol Thomas Street, Nelson, o ffin ddwyreiniol rhif 21 Thomas Street i gyfeiriad y de-ddwyrain i gatiau’r ysgol, sef pellter o tua 31m.
- Ar ochr orllewinol mynedfa gefn Ysgol Iau Llancaeach, ym mhen dwyreiniol Thomas Street, Nelson, o ffin ogledd-ddwyreiniol rhif 22 Thomas Street i gyfeiriad y de-ddwyrain i gatiau’r ysgol, sef pellter o tua 19m.
- Ar ochr ddeheuol Thomas Street, y tu allan i rif 22, o fynedfa’r ysgol i gyfeiriad y gorllewin am bellter o tua 2m.

Gellir archwilio copi o’r cynigion, datganiad gan y Cyngor o’i resymau dros wneud y Gorchymyn a mapiau sy’n dangos y darnau o ffordd dan sylw ar wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk/GorchmynionRheoleiddioTraffig

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Isadran Rheoli Traffig drwy ffonio 01443 866948 neu e-bostio godsat@caerffili.gov.uk

Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiad i’r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â’r rheswm dros wneud hynny, drwy e-bostio jameshm@caerffili.gov.uk neu jonesa23@caerffili.gov.uk erbyn 7 Medi 2021, neu ffonio 01443 866948.

Gall gohebiaeth gael ei datgelu yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Dyddiedig 16 Awst 2021**
**Marcus Lloyd**
**Pennaeth Isadeiledd**
**Tŷ Tredomen**
**Parc Tredomen**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7WF**

## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and on Street Parking Places) Consolidation Order 2019 (Amendment Order No 8) 2021

### Proposed Provision and Amendments to Traffic Orders at Various locations within the Nelson and St James Ward in Caerphilly County Borough

**NOTICE** is hereby given that Caerphilly County Borough Council (the ‘Council’) in exercise of their powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 (the ‘1984 Act’) and the Traffic Management Act 2004 (the ‘2004’ Act) and all other enabling powers and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the 1984 Act propose to make an Order the effect of which is to amend the Caerphilly County Borough Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and On Street Parking Places) Consolidation Order 2019 by the provision of Double Yellow Lines (DYL’s) at:

**Pentwyngwyn Road and Edward Thomas Close, Rudry**
- On the western side of Pentwyngwyn Road from the start of the existing DYL’s approximately 15m from its junction with Garth Lane in a northerly direction for a distance of approximately 10m
- From the common boundary of No’s 2/4 Pentwyngwyn Road in a south easterly and easterly direction to its junction of adjacent to No 1 Edward Thomas Close, a distance of approximately 36m
- On the southern side of Edward Thomas Close from the existing DYL’s at its junction with Heol Y Garth in a easterly direction to the eastern boundary of No 7 Heol y Garth a distance of approximately 24m

**Caerphilly Business Park, Caerphilly**
- On the eastern side of the road to Caerphilly Business Park outside Bryn House from the access into Caerphilly Business Park in a southerly direction to the access road leading the rear of Caerphilly Business Park and Britannia Lodge, a distance of approximately 91m

**Pen-y Cae, Mornington Meadows, Caerphilly**
- On the northern side of Pen-y Cae from its junction with the main distributor road in an westerly direction to the rear of the common boundary of No’s 16/18 Gwaun Hyfryd a distance of approximately 55m
- On the southern side of Pen-y Cae from its junction with the main distributor road in an westerly direction to a point 5m west of the footpath into St James Primary School a distance of approximately 81m

**Llancaiach View and Tawelfan, Nelson**
- On the north western side of Llancaiach View from its junction with Tawelfan in a south westerly direction for a distance of approximately 17m
- On the north eastern side of Tawelfan from its junction with Llancaiach Court in a south easterly direction for a distance of approximately 13m
- On the south eastern side of Llancaiach View from its junction with Tawelfan in a south westerly direction for a distance of approximately 17m
- On the south western side of Tawelfan from its junction with Llancaiach View in a south easterly direction for a distance of approximately 10m

**Brooklands and Shingrig Road, Nelson**
- On the southern side of Brooklands from its junction with Shingrig Road in a westerly direction for approximately 10m
- On the northern side of Brooklands from its junction with Shingrig Road in a westerly direction for approximately 10m
- On the western side of Shingrig Road from its junction with Brooklands in a southerly direction to the existing DYL’s a distance of approximately 10m

**High Street, Nelson**
- On the southern side of High Street from its junction with the lane to Rose Cottages in an easterly direction for a distance of 5m
- On the southern side of High Street from its junction with the lane to Rose Cottages in an westerly direction for a distance of 5m

**Bryncelyn, Nelson**
- On the northern side of Bryncelyn at the front of No 57 Bryncelyn from its junction with the access road adjacent to No 57 Bryncelyn in an easterly direction for a distance of 10m
- On the northern side of Bryncelyn at the front of No 11 Bryncelyn from its junction with the access road adjacent to No 11 Bryncelyn in an westerly direction for a distance of 10m
- On the western side of the access road the side of No’s 11/13/55/57 Bryncelyn from its junction with Bryncelyn in a northerly direction for a distance of 53m
- On the eastern side of the access road the side of No’s 11/13/55/57 Bryncelyn from its junction with Bryncelyn in a northerly direction for a distance of 53m

**Thomas Street, Nelson**
- On the eastern side of the rear access to Llancaeach County Junior and Infants School at the eastern end of Thomas Street, Nelson from the eastern boundary of No 21 Thomas Street in a south easterly direction to the school gates a distance of approximately 31m
- On the western side of the rear access to Llancaeach County Junior and Infants School at the eastern end of Thomas Street, Nelson from the north eastern boundary of No 22 Thomas Street in a south easterly direction to the school gates a distance of approximately 19m
- On the southern side of Thomas Street outside No 22 from the access to the school in a westerly direction for a distance of approximately 2m

A copy of the proposals, a statement of the Council’s reasons for making the Order and Maps showing the affected lengths of road may be inspected on the Councils website at https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Roadsand-pavements/Road-works/Traffic-Regulations-Orders..

Further information can be obtained from the Traffic Management Section, telephone 01443 866948 or email godsat@caerphilly.gov.uk

Any objection to the proposed Order with the grounds for making it should be made by email to jameshm@caerphilly.gov.uk or jonesa23@caerphilly.gov.uk by 7th September 2021, telephone 01443 866948.

Correspondence may be disclosed as required by the Freedom of Information Act.

**Dated 16th August 2021**
**Marcus Lloyd**
**Head of Infrastructure**
**Tredomen House**
**Tredomen Park**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7WF**